CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION - IONAWR 2017

DYDDIAD	Nos Fercher, 25 Ionawr 2017
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	**Ysgol Rhostryfan**

a)	**Croeso** Rhoddwyd croeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Rhys Owen. Yn bresennol roedd Elwyn Jones, Michelle Williams, Cyng Aeron M Jones, Elin Evans, Nerys Evans, Gwilym Ll Williams, Gwilym V Thomas, Tom Ellis, Jason Hunt. Hefyd yn bresennol oedd y clerc Caryl E Lewis. Croesawyd yn arbennig i'r cyfarfod ar gyfer eitem e(c) – OP Huws, Alun Wyn Jones, Gwyndaf Roberts ac Barry Braicirdle.
b)	**Ymddiheuriadau** Neal Williams ac Les Williams. Anfonwyd gwellhad buan i Les.
c)	**Datgan Buddiant** Dim i'w nodi
d)	**Cadarnhau cofnodion 16 Tachwedd 2016 a materion yn codi** Nodwyd fod y cofnodion yn gywir.
e)	**Materion i'w trafod:** a) Lleoliad cyfarfodydd Nododd y Clerc fod gwersi yoga yn Canolfan Llanwnda ar nos fercher a stafell y Cylch ddim yn addas. Cynnigwyd ein bod yn gofyn a oes modd defnyddio un o ddosbarthiadau ysgol Felinwnda. b) Tir ychwanegol y fynwent – Gweithredoedd, cytundeb pori, manyleb wal Nododd y Clerc fod Gerwyn Williams, Gadlys yn barod iawn i'n cyfarfod ar y safle i drafod codi'r wal. Cytunwyd y byddai'r Is-bwyllgor yn cyfarfod yno fore sadwrn am 9yb. Byddwn yn trafod codi'r wal a sut i gario cerrig yno ayb. c) Cydweithio gyda Cynghorau Cymuned Cyfagos. Cafwyd ymweliad gan OP Huws ac aelodau eraill i drafod y syniad o sefydlu partneriaeth. Pwrpas y bartneriaeth rhwng y 3 Cyngor, sef Cyngor Llandwrog, Llanllyfni a Llanwnda byddai i drafod prosiectau lefel uchel. Bydd y Cyngor Cymuned wrth gwrs yn parhau i fod yn gyfrifol am faterion lleol misol ond byddai'r bartneriaeth mewn gwell sefyllfa i ymgeisio am grantiau ar gyfer prosiectau mawr a fydda'i o fudd i'r dair cymuned, roedd esiampl yn cynnwys prosiect hydro ogwen. Pawb yn hapus i fod yn rhan. Cynnigwyd y canlynol ar gyfer mynychu cyfarfodydd – CEL, NE, RO, JH, AMJ. Nodwyd hefyd y byddai'n haws cadw at nos fercher ar gyfer cyfarfodydd os yn bosib. d) Ceisiadau Nawdd Nododd y Clerc fod sawl cais wedi cyrraedd erbyn hyn, rhai wedi defnyddio'r ffurflen gais a rhai heb. Pan yn gyrru llythyr ymateb allan bydd angen cynnwys y ffurflen gais ar gyfer ceisiadau flwyddyn nesaf a gofyn i bawb ei defnyddio. e) Llinellau melyn Jericho, Rhosgadfan (MW) Wedi ei ddatrys erbyn hyn, llinellau wedi eu gosod. f) Sgwar Rhostryfan, sefyllfa parcio (EJ) Aros am ymateb gan Rheolwr Parcio, Cyngor Gwynedd. g) Cynllun gan Ysgol Rhostryfan i greu trydan hydro gyda afonydd y pentref (EJ) Clerc wedi gyrru llythyr o gefnogaeth at y Prifathro ar ran y Cyngor Cymuned. h) Man cychwyn Lon Bryngwyn, mae'r grid angen ei glirio.(EJ) Clerc wedi adrodd wrth Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd, wedi derbyn ymateb y byddent yn gyrru arolygwr allan. i) Cwmni Rheilffordd Ffestiniog – angen diweddariad am y gwaith o glirio o dan y

	bont rheilffordd (EJ) Clerc wedi derbyn ymateb gan y Rheolwr Paul Lewin. Gwaith ar fin cychwyn, disgwyl am ddyddiad. j) Bro Gwydr, Rhosgadfan - parcio y ddwy ochr i'r lon a pobl methu dod allan o fferm Bryngwynt (LW) Aros am ymateb gan Rheolwr Parcio Cyngor Gwynedd. k) Damwain eto ar y gornel wrth croesfan Ffrwd Cae Du (EE) Clerc wedi derbyn ymateb gan Dylan Wynn Jones, Rheolwr Traffig, Cyngor Gwynedd yn nodi: "Gallwn gadarnhau ein bod wedi asesu'r safle ac yn gweithio ar gynllun i osod amryw o fesuriadau ar y gornel sy'n cynnwys - Cyfyngiad cyflymder 40 mya - Gwella'r arwyddion ` cheverons` - Marciau ffyrdd - `anti skid surface` Byddwn yn anelu i gyflawni'r rhan fwyaf or gwaith cyn diwedd y flwyddyn arianol gyda'r cyfyngiad cyflymder yn cael ei osod yn dilyn y broses gyfreithiol". Nodwyd fod pawb yn falch o'r ymateb a diolchwyd i Cyngor Gwynedd am hyn, l) NE (Ar ebost) - 'Gullies' i lawr y lon o sgwar Rhostryfan i Ffrwd Cae Du wedi cau'n llwyr a y dwr yn llifo dros y lon. Clerc wedi derbyn ymateb gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn nodi y byddent yn gyrru arolygwr allan.
6.	**Derbyn Adroddiadau** **RO –** Nodwyd fod Cymdeithas Porwyr wedi derbyn grant a mae potensial am arian i ddod i orffen llwybr Bryngwyn.
7.	**Is-bwyllgorau** Dim i'w nodi
8.	**Materion Ariannol** a) Adroddiad Ariannol **Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 17 Ionawr 2017** **1. Cyfrif Cadw** Balans a ddygwyd ymlaen: 20,336.59 - Trosglwyddiad i cyfrif siec 4,000.00 + Llog 2.28 **Balans ar derfyn busnes 17 Ion 2017 16,338.87** **2. Cyfrif Siec** Balans a ddygwyd ymlaen: **2,618.00** + Trosglwyddiad o cyfrif cadw 4,000.00 - 101393 Wyn Williams 1,653.50 - 101389 Caryl E Lewis Tach 438.51 - 101390 Caryl E Lewis Rhag 438.51 - 101394 North Wales Crop Spraying 276.00 - 101388 Antur Nantlle 144.00 - 101391 Swyddfa'r Post – PAYE Tach 99.00 - 101392 Swyddfa'r Post – PAYE Rhag 99.00 - 101387 Sion Owen 440.00 **Balans ar derfyn busnes 17 Ion 2017: 3,029.48** **Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 25 Ionawr 2017:**

	Cyflog Clerc Ion 438.51 Cyllid y Wlad Ion 99.00 Mcafee Antivirus (Ad-dalu Clerc) 89.99 Zurich 1,764.46 **Cyfanswm** **2,391.96** b) **Archwiliad 2015/16** Nododd y Clerc fod yr archwiliad wedi dod i ben ac adroddiad terfynol wedi ei dderbyn. 2 fater angen sylw, sef yr angen i fod yn dangos tystiolaeth o gyllidebu a selio y lefel praesept ar hynny a mi fydd angen gwell dogfennaeth yn dangos penodi archwiliwr mewnol a thermau'r archwiliad. c) **Praesept 2016/17** Nododd y Clerc fod angen ymateb i Cyngor Gwynedd erbyn dydd Gwener. Cafwyd trafodaeth o amgylch y gyllideb a cyflwynodd y Clerc y gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Y rhagolwg ydy mai ond tua £1,000 fyddai'n weddill erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, a'n bod yn gwario bron cymaint a sydd yn dod i mewn fel incwm. Nid yw'r praesept wedi ei godi ers blynyddoedd ac os ydym am fynd ymlaen gyda'r gwaith o godi wal o amgylch tir newydd y fynwent bydd angen codi'r lefel. Hefyd gyda'r holl dorriadau gan Cyngor Gwynedd bydd mwy o ddisgwyliadau ar y Cyngor Cymuned, felly mae angen sicrhau fod gennym ddigon o arian i ymgymryd ar gwaith llwybrau ayb. Awgrymodd y Clerc ei godi o £5,000 sef o £18,200 i £23,200. Cyflwynodd ffigyrau yn dangos effaith hyn ar fandiau treth, ar gyfer y bandiau mwyaf cyffredin, isel iawn byddai'r effaith. Cytunodd Aelodau i godi lefel praesept o £18,200 i £23,200 ar gyfer 2017/18 er mwyn sicrhau y bydd arian wrth gefn ac arian tuag y gwaith o godi wal y fynwent.
9.	**Materion Cynllunio** Dim ar hyn o bryd.
10.	**Gohebiaeth a chylchgronnau** Ymchwiliad Craffu Cyngor Gwynedd i'r broses cynllunio – holiadur i'w gwblhau
11.	**Materion Cyfarfod Nesaf** MW – Dwr yn dod lawr ffordd Rhostryfan, peryglus enwedig pan wedi rhewi. NE – Tan Gwyllt yn Hafoty, Rhostryfan – Rhwng dolig a flwyddyn newydd, angen gwirio a oedd angen caniatad neu ddim. Os mai commercial fireworks, byddai angen caniatad. GVT – Twll o flaen ysgol Rhosgadfan byth wedi ei sortio. GVT – Pam fod Cyngor Gwynedd yn torri coed mawr yn Parc Glynllifon? Rhywun yn torri coed mawr da yno yn y parc. GLLW – Wrth Bryn Peris cyn cyrraedd junction carmel, Tryfan Hall – twll yn y lon GLLW – Sgwar Rhos Isaf, lon wedi sinkio eto. RO – Tyllau ar ffordd saron. AMJ – Angen cynrychiolaeth or cyngor ar bwyllgor y chwarel Rhosgadfan. Angen 2/3 aelod i fynd ir cyfarfod. **Dyddiad: 15 Chwefror 2017** **Lleoliad: I'w gadarnhau**